

# CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar Zoom  
Nos Fawrth, Mehefin 8, 2021 am 7:30yh o'r gloch.

## AGENDA

[www.cyngorllanelltyd.cymru](http://www.cyngorllanelltyd.cymru)

### **Gweddi**

#### **1. Ymddiheuriadau:**

#### **2. Dewis Swyddogion**

Swyddogion presennol:

Cadeirydd: Simon Evans.

Is Gadeirydd: Carwyn Evans

Cynrychiolwyr ar y canlynol:

Canolfan y Pentref Llanelltyd (1): Llinos Williams

Neuadd Bentref Bontddu (1): Janet Edwards

Materion Mynwent Llanelltyd (2): Geraint Rowlands a John Hughes.

Un Llais Cymru (2): Elfed ap Gomer, Gareth Ellis

#### **3. Datgan diddordeb:**

#### **4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mai 11, 2021**

#### **5. Materion yn codi o'r cyfarfod Mai 11, 2021**

Eitem 5. Eitem 5.d. Llythyr (22/4/2021) oddi wrth Zurich angen gwybod os rydym am archwilio'r toiledau yn wythnosol fel mae angen.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Rhoddwyd gwybod i Zurich (27/4/2021) bod y Cyngor am gyd-fynd gyda'r anghenion sydd angen eu gwneud.

Pwy sydd am archwilio'r toiledau yn wythnosol?

Eitem 10.c. Llythyr (14/5/2021) oddi wrth Antony D.Ll. Griffiths, Cyfoeth Naturiol Cymru, gyda mwy o wybodaeth am waith sy'n cael ei wneud yn goedwig Bontddu a Llanelltyd.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

#### **6. Materion Ariannol**

a. Llythyr (30/1/2020) oddi wrth Swyddog Cymhorthydd Refeniw Trethi Annomestig,

Cyngor Gwynedd yn ateb ein llythyr i Eitem 5.e. Cofnodion Ionawr 14, 2020.

Maent yn rhoi gwybod mae'r bil dal yn bodoli ar gyfer y toiledau er bod yr adeilad wedi ei gau. Maent yn rhoi gwybod hefyd mi fydd angen cysylltu â'r Swyddfa Brisió (Valuation Office Agency) i wneud cais i dynnu'r toiledau allan o'r rhestr ac i dynnu'r asesiad Trethi Annomestig oddi ar y toiledau.

Mi fydd angen i ni gysylltu â'r swyddfa Brisió drwy 03000 505505 neu [ratingwales@voa.gsi.gov.uk](mailto:ratingwales@voa.gsi.gov.uk). Bydd y Swyddog yn rhoi ein cyfrif ar "hold" hyd at 31.05.2020.

Anfonwyd copi o'r llythyr i'r aelodau.

b. Derbyniwyd (14/5/2021) £100 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at osod beddfaen ar y diwedd ar Isobel Nanney Williams.

c. Balans yn y banc ar 29/5/2021: £12,265.82. (29/5/2020: £11,487.75).

## **7. Archwilio**

a. Anfonwyd y dogfennau i'r Archwilydd mewnol (25/5/2021).

b. Derbyniwyd (1/6/2021) adroddiad yr Archwilydd Mewnol.

Materion codwyd o'r adroddiad yw: ni chafwyd Cyfarfod Blynyddol fel mae angen ac roedd gwariant a ganiateir o dan bwerau eraill wedi cael eu hadnabod o dan wariant adran 137.

Anfonwyd yr adroddiad ymlaen i'r aelodau.

## **8. Mynwent Llanelltyd**

a. Sydd angen newid costau'r fynwent?

Anfonwyd copi o gostau Cyngor Gwynedd am 2021-2022 a chostau'r Cyngor am 2019/2020 i'r aelodau. Ni chafodd costau'r Cyngor eu newid ers 2017 – 2018.

## **9. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**

a. Cais cynllunio NP5/65/246A. Newid defnydd tir i ymestyn cwrtil domestig ac adeiladu garej a mynedfa gerbyd Newydd. Pen y Dalar, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (27/5/2021).

## **10. Gohebiaeth**

a. Llythyr (13/5/2021) oddi wrth Cyngor Tref Nefyn yn ymwneud â rhoi pwysau ar Llywodraeth Cymru i weithredu mesurau i reoli pryniannau ail gartrefi. Mae gwahoddiad i ni ymuno â'r Cyngor mewn cyfarfod Zoom am 7yh ar Fai 27. Er mwyn ymuno maent angen ein cyfeiriad e-bost ac ein cyfeiriad a'u hanfon i [clercyngortrefnefyn@gmail.com](mailto:clercyngortrefnefyn@gmail.com). Byddwn yn derbyn linc i'r cyfarfod maes o law.

Yn ardal Cyngor Tref Nefyn mae prisiau tai yn saethu i grocbris, mae tua 30% o'r stoc dai yn ail gartrefi, ac erydiad yr iaith Gymraeg. Nid ydynt yn rhagweld dyfodol i'r gymuned fel cymuned fyw wrth i genhedlaeth o bobl ifanc gael eu prisio allan o'u

cymuned. Nid oes rheoliadau na chyfyngiadau i warchod cymunedau rhag gormodedd o ail gartrefi.

Mae'r Cyngor wedi gweithredu â Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gwynedd; ysgrifennu at bob Cyngor Tref a Chymuned; cyfarfod â'r Prif Weinidog; cynnal protest yn Nefyn; a thempled llythyr i ni ei ddefnyddio i yrru i'r Llywodraeth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

b. Llythyr (18/5/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd cyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh ar ddydd Mercher Mai 26, 2021 trwy Star Leaf. Amgáu mae Agenda a Chofnodion cyfarfod cynhaliwyd dydd ar Chwefror 3, 2021.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Lythyr (19/5/2021) oddi wrth Un Llais Cymru gyda manylion Sar Leaf.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

c. Rhoddwyd (24/5/2021) hysbysiad ar ein pedwar hysbysfyrddau am gyfethol dau aelod i lenwi'r seddi gwag y Cyngor. Dyddiad cau oedd Mehefin 7, 2021.

ch. Llythyr (24/5/2021) oddi wrth Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn ymwneud ag ymgynghoriad mae'r Adran yn ei wneud ar orchymyn gwarchod mannau cyhoeddus: rheoli cŵn. Mae holiadur i roi sylwadau ac maent ei angen cyn Mehefin 21, 2021.

Anfonwyd y ymlaen llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (26/5/2021) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgau rhestr o fanylion sesiynau hyfforddiant o bell a gynhelir ym mis Mehefin.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

dd. Anfonwyd cerdyn cydymdeimlad i Peredur Jenkins (31/5/2021).

## **11. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins**

## **12. Materion Brys** Yn gywir, H.M. Edwards, Clerc